

YMARFER 8: Sylwadau

How far your food travels has serious consequences for the climate

People are rediscovering the benefits of buying local food. It's good for the local economy because buying directly from local farmers helps them stay in business.¹ Buying local also means that your food isn't travelling long distances by plane, train, truck, or ship, all of which consume energy and produce pollution², thereby contributing to global warming and unhealthy air quality.

Put simply, food miles are the distance food travels from where it is grown to where it is ultimately purchased or consumed.³ Food miles — and the resulting pollution — increase substantially when we consider produce and goods imported from distant countries.⁴ In developed nations like ours⁵, food is travelling further to reach consumers and international food trade is increasing more rapidly than increases in population or food production. Today, a typical prepared meal contains, on average, ingredients from around five foreign countries⁶.

Not only are the distances that food travels from farm to market important, but the modes of transport also have a significant impact on how much pollution is generated. For example, importing food by air⁷ creates far more greenhouse emissions⁸ than imports by ship⁷.

Although there are some exceptions, in most cases locally produced food is the best choice for minimizing global warming and pollution. In fact, one study has shown that, even if all locally grown food were combined⁹, it would still produce fewer carbon dioxide emissions in transport than any one imported product.

[addasiad o erthygl ar food-hub.org]

1. **It's good for the local economy because buying directly from local farmers helps them stay in business**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...prynu'n uniongyrchol o ffermwyr lleol*
2. *...prynu yn uniongyrchol wrth ffermwyr lleol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'n dda i'r economi leol oherwydd bod prynu'n uniongyrchol gan ffermwyr lleol yn gymorth i'w busnes barhau.*

SYLW:

1. Siom oedd gweld arddodiaid fel *o* ac *wrth* yn cael eu camarfer mewn ymadrodd mor gyfarwydd. Prynu *gan* neu *oddi wrth* sy'n gywir

2. Buying local also means that your food isn't travelling long distances by plane, train, truck, or ship, all of which consume energy and produce pollution...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae prynu'n lleol yn ogystal yn meddwl yn cyfrannu tuag at gynhesu byd-eang...*
2. *Gan brynu cynnyrch lleol*
3. *...dulliau sydd oll yn llyncu egni*
4. *...pellteroedd maith mewn awyren drên, lori, neu long*
5. *...ar awyren, drên, dryc neu long*
6. *...mae'r rhain yn dinistrio ynni*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...oherwydd bod prynu'n lleol hefyd yn golygu nad yw eich bwyd yn teithio o bell mewn awyren, trên, tryc neu long. Mae pob un o'r rhain yn treulio ynni ac yn cynhyrchu llygredd, gan gyfrannu at gynhesu byd-eang...*

SYLWADAU:

1. Yn Afl.1 mae'r ymgeisydd wedi rhannu'r frawddeg yn ddwy ac roedd hynny'n ddewis call. Fodd bynnag, mae'n dilyn y Saesneg yn rhy slafaid, gan ddefnyddio *meddwl* yn hytrach na *golygu* i gyfieithu 'means' ac nid oes unrhyw ystyr eglur i *yn ogystal yn meddwl yn cyfrannu*. Mae'r diffyg sylw i'r gystrawen yn atal llif naturiol y frawddeg.
2. Yn Afl.2 tueddaf i gredu bod yr ymgeisydd wedi ceisio dweud 'Trwy brynu'n lleol...' neu 'Wrth brynu'n lleol...' ond nid yw *Gan brynu cynnyrch lleol...* yn ystyrllon yn y cyd-destun, a does dim sôn am 'gynnyrch' yn y frawddeg wreiddiol.
3. Roedd dewis y cywair priodol yn baglu rhai, wrth i lawer o'r ymgeiswyr ddewis *egni* yn hytrach nag *ynni*. Mae trafodaethau lu am faterion ecolegol i'w darllen mewn cylchgronau a'u gwranddo ar y radio yn Gymraeg y dyddiau hyn, felly mae'n syndod bod yr ymgeiswyr yn ystyried bod *egni* yn ddewis priodol yn y cyd-destun yma.
4. Roedd mwy nag un wedi ei chael hi'n anodd rhestru'r gwahanol ddulliau o deithio hefyd. Dim ond yr olaf, sef 'llong', y mae angen ei dreiglo, a hynny oherwydd ei fod yn dilyn 'neu'.
5. Nid yw *dinistrio ynni* yn gwneud synnwyr. Mae'n wir mai dyma a geir am 'consume' yn Cysgeir, ond rwy'n synnu nad oedd *defnyddio ynni* (neu hyd yn oed *treulio ynni*) yn gyfarwydd.

3. Put simply, food miles are the distance food travels from where it is grown to where it is ultimately purchased or consumed.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...o le mae'n cael ei dyfu i le mae'n cael ei brynu*

2. ...hyd at ben y daith... yn y pen draw
3. ...o le fe'i tyfwyd i ddiwedd y daith lle prynir neu bwyteir
4. ...lle y caiff ei brynu neu'i dreulio yn y pen draw
5. ...caiff ei feithrin i'r man lle caiff ei brynu neu fwyta

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Yn fras, y pellter y mae bwyd yn ei deithio o'r lle mae'n tyfu i'r lle mae'n cael ei brynu a'i fwyta yn y pen draw yw milltiroedd bwyd.*

SYLWADAU:

1. Afl.1 - nid cwestiwn sydd yma, felly byddem yn disgwyl clywed y fannod yn y cyfieithiad *o'r lle (y) mae'n tyfu i'r lle (y) mae'n cael ei brynu a'i fwyta* (cymharer "dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd o'r lle y daw fy nghymorth" Salm 121:1b)
2. Mae'n ymddangos bod ymgeisydd Afl.2 wedi ceisio pwysleisio natur taith y bwyd trwy ddefnyddio *hyd at ben y daith* yn ogystal ag *yn y pen draw*, felly mae tortoleg i'w gweld yn yr enghraifft yma - mae'n ailadrodd ystyr '**ultimately**'. Mae hynny'n torri ar rediad y frawddeg a'i gwneud yn lletchwith. Nid yw'r ffordd y mae'n cyfleu syniad y gwreiddiol yn gystrawennol gadarn yn y Gymraeg.
3. Cafodd ymgeisydd Afl.3 drafferth gyda chystrawen wrth geisio defnyddio'r amhersonol. Doedd hi ddim yn gwbl angenrheidiol defnyddio'r amhersonol yn y fan hon. Yn bendant mae angen bod yn siŵr bod amser y berfau'n cyd-fynd â'i gilydd (*tyfwyd* – gorffennol; *prynir neu bwyteir* – presennol).
4. Afl.4 - nid yw'r dewis o gyfosod y geiriau *neu'i dreulio yn y pen draw* yn ddoeth. Gwendid cywair.
5. *ei brynu neu fwyta*. Mae angen ailadrodd y rhagenw mewdol ar ôl y cysylltair i gadw'r gystrawen yn gryf: *ei brynu neu'i fwyta*.

4. - and the resulting pollution -

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *mae milltiroedd bwyd a'r llygredd sy'n deillio ohono*
2. *a'r llygredd sy'n dod gydag ef*
3. *llygredd a ganlyn*
4. *a'r llygredd canlyniadol*
5. *llygredd a ddaw o hynny*
6. *llygredd sy'n eu dilyn*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae milltiroedd bwyd - a'r llygredd ddaw o ganlyniad iddynt – yn cynyddu'n sylweddol wrth i ni ystyried cynnyrch a nwyddau sy'n cael eu mewnfario o wledydd pell.*

SYLWADAU:

1. Cafwyd sawl amrywiad annerbyniol ar y cymal bach yma yn yr arholiad. Yn enghreifftiau Afl.1 ac Afl.2 mae'r ymgeiswyr wedi anghofio cynnal rhif yr enw gydol y frawddeg. Lluosog yw *milltiroedd* felly mae angen i'r hyn sy'n

cyfeirio ato adlewyrchu hynny.

2. Mae pob un o'r cymalau aflwyddiannus yn drwsgl yn gystrawennol ac yn torri ar rediad y frawddeg.

5. In developed nations like ours...

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *gwledydd datblygedig fel ein rhai ni*
2. *mewn cenhedloedd datblygedig fel ein un ni*
3. *cenhedloedd datblygedig fel Prydain*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mewn gwledydd datblygedig fel ein gwlad ni...*

SYLWADAU:

1. Gall cymal bach fel hyn fod yn dwyllodrus iawn. Glynodd llawer iawn o'r ymgeiswyr at y Saesneg trwy ddefnyddio'r gair *cenhedloedd* i gyfleu 'nations'. Y wlad ei hun (h.y. ei thir a'i hadnoddau) sydd dan sylw yn y fan hon, yn hytrach na'r bobl sy'n byw ynddi, felly *gwledydd* yw'r cyfieithiad gorau.

2. Yn yr enghreifftiau uchod, gwelir methiant i gynnal yr ystyr yn Afl.1. Un wlad sydd gennym, felly *gwledydd datblygedig fel ein hun ni / ein gwlad ni* amdani.

3. Methwyd treigladd yn Afl.2 gan ychwanegu gwall cywirdeb at wall ystyr.

4. Yn Afl.3 ceir gorgyfieithu wrth i'r cyfieithydd enwi *Prydain* er na wneir hynny yn y gwreiddiol. Gwall ystyr yw hwn eto.

6. Today, a typical prepared meal contains, on average, ingredients from around five foreign countries.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *tua phum cyfandir estron*
2. *o oddeutu pum gwlad estron*
3. *o thua phump cyfandir estron*
4. *bron i bum gwlad dramor*
5. *o dua phump o wledydd*
6. *oddi wrth o gwmpas pump gwlad dramor*
7. *oddeutu pum gwlad tramor*
8. *o tua phum wlad tramor*
9. *yn cynnwys, ar gyfartaledd, cynhwysion o oddeutu pum...*
10. *yn cynnwys, ar gyfartaledd, cynhwysion o tua phum*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn cynnwys ar gyfartaledd gynhwysion o ryw bump o wledydd tramor*

SYLWADAU:

1. Roedd sawl un, Afl.1, Afl.2 ac Afl.3, wedi dewis *estron* am 'foreign'. Teimlaf fod yn y gair hwnnw arlliw negyddol. Ar bellter y gwledydd o'r DU yr oedd y pwyslais yn y cyd-destun yma, felly byddai *tramor* wedi bod yn well.
2. Pa air fyddai orau i gyfleu 'around'? *tua? oddeutu? rhyw?* Nid yw *o gwmpas* (Afl.6) mor dwt. Ond yn sicr ni ddylech ddefnyddio *bron* (Afl.4). Mae hynny'n awgrymu bod nifer y gwledydd yn is na 5. Mae 'around' ar y llaw arall yn golygu y gallai'r rhif fod fymryn yn uwch neu fymryn yn is na 5.
3. Mae angen treigladau llaes yn dilyn 'tua' ond does dim angen treiglo 'tua' ei hun. Ni ddylid treiglo 'tua' yn feddal (Afl.5) o gwbl. (Gweler *Gramadeg y Gymraeg* Peter Wynn Thomas 5:13). Dim ond ar ôl 'a' neu 'â' y bydd 'tua' yn treiglo'n llaes (Afl.3).
4. Mae *oddi wrth o gwmpas pum* (Afl.6) yn eithaf dryslyd ei ystyr. Does dim angen *oddi wrth* i gyfleu 'from' ac mae *o gwmpas* yn rhy anffurfiol i'r darn yma.
5. Mae Afl.7 ac Afl. 8 yn cynnwys camdreigladau 'pum / phum gwlad dramor' ac felly'n colli marciau am gywirdeb. Mae angen treigladau meddal ar ôl sangiad (*yn cynnwys, ar gyfartaledd, gynhwysion*) a dyma sy'n cyfrif am y gwall cywirdeb yn y ddwy enghraifft olaf.

7. **For example, importing food by air creates far more greenhouse emissions than imports by ship.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *mewnforio bwyd drwy'r awyr*
2. *mae mewnforio bwyd yn yr awyr... gan long*
3. *mewnforio... gan awyren... gan long*
4. *mewnforio bwyd gydag awyren... gyda llong*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae mewnforio bwyd mewn awyren... mewnforio ar long.*

SYLW:

1. Roedd tuedd ymhlith yr ymgeiswyr i ddilyn y Saesneg yn slafaid wrth gyfieithu '**importing food by air**' – Afl.1 ac Afl.2. Roedd hyn yn creu darlun difyr yn y dychymyg! Nid yw defnyddio arddodiaid fel *gan* (Afl.2 ac Afl.3) a *gyda(g)* (Afl.4) yn dderbyniol. Mae angen newid yr arddodiad i lanhau'r gystrawen. Cludo rhywbeth *ar* (a theithio *ar*) sy'n gywir* yn ôl *Pa Arddodiad?* D Geraint Lewis.

*Er hynny, yn soned enwog Gwenallt i Sir Gaerfyrddin ceir "ni wyddom beth yw'r ias a gerdd trwy'r cnawd/wrth deithio'r ffin mewn cerbyd neu mewn trê'n"

8. **...creates far more greenhouse emissions than imports by ship.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *yn cynhyrchu llawer mwy o nwyon tai gwydr*
2. *yn cynhyrchu llawer mwy o allyriadau nwyau tŷ gwydr*

3. *yn creu llawer mwy o alldafladau tŷ gwydr*
4. *yn rhyddhau llawer mwy o lygredd i'r tŷ gwydr na mewnfario bwyd ar long*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn creu llawer mwy o allyriadau tŷ gwydr na...*

SYLWADAU:

1. Mae'r term *allyriadau* yn un digon cyfarwydd wrth gyfleu 'emissions'. Mae *alldafladau* ar y llaw arall yn anghyfarwydd yn y cyd-destun dan sylw. O bosibl, byddai 'nwyon tŷ gwydr' yn dderbyniol (yn sicr nid yw'n wall anfaddeuol yn y cyd-destun yma) ond y broblem gyda'r enghraifft yma yw *nwyon tai gwydr*. Mae 'tŷ gwydr' yn derm sefydlog yn y maes dan sylw, ac yn aros yn unigol hyd yn oed os yw'r nwyon neu'r allyriadau'n lluosog.
2. Yn Afl.2 ceir lluosog anghywir. Nid *nwyau* yw lluosog 'nwy', ond 'nwyon'.
3. Mae Afl.4 yn awgrymu nad oedd yr ymgeisydd wedi deall y gwreiddiol. Mae *nwyon tŷ gwydr / allyriadau tŷ gwydr* yn dermau cyfarwydd, felly mae'n ddirgelwch pam y dechreuodd yr ymgeisydd sôn am *ryddhau llawer mwy o lygredd i'r tŷ gwydr*.

9. **In fact, one study has shown that even if all locally grown food were combined, it would still produce fewer carbon dioxide emissions...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *hyd yn oed pe gyfunwyd yr holl fwyd a dyfwyd yn lleol*
2. *hyd yn oed pe byddai'r holl fwyd sydd wedi'i dyfu'n lleol yn cael ei gyfuno*
3. *hyd yn oed pe byddid yn cyfuno'r holl fwyd a gynhyrchir yn lleol*
4. *hyd yn oed pe byddai'r holl fwyd a gynhyrchir yn lleol yn cael ei uno*
5. *pe bawn yn cyfuno'r holl fwyd lleol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Yn wir, mae un astudiaeth wedi dangos hyd yn oed o gyfrif yr holl fwyd a gynhyrchwyd yn lleol gyda'i gilydd byddai'n parhau i gynhyrchu llai o allyriadau carbon deuocsid...*
2. *Yn wir, mae un astudiaeth wedi dangos y byddai'r holl fwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, hyd yn oed o'i gyfrif gyda'i gilydd, yn dal i greu llai o allyriadau carbon deuocsid...*

SYLW:

1. Roedd ambell ymgeisydd wedi hepgor *hyd yn oed* ('even').
2. Roedd yn braf gweld bod bron pob un wedi adnabod y cymal dibynnol ac wedi defnyddio 'pe' yn hytrach nag 'os' am 'if'. Yn anffodus, ni lwyddodd rhai i ddefnyddio'r patrwm yn gywir. Mae angen cadw'r gytsain gysefin, ond gwelwyd *pe gyfunwyd* gan un ymgeisydd. Defnyddiodd un ymgeisydd *pe bawn* er nad y person cyntaf unigol oedd yn gywir. (Mae cyfarwyddyd pellach ar ddefnyddio 'pe' gyda chymalau dibynnol i'w gweld yn *Gramadeg y Gymraeg* Peter Wynn Thomas 6.100.)

3. Ystyr '**were combined**' yn y darn yma yw cyfanswm yr ynni fyddai ei angen i dyfu a chludo'r holl fwydydd yn lleol. Rwy'n eithaf sicr bod pob un o'r ymgeiswyr wedi deall hynny, ond yn anffodus mae'r enghreifftiau uchod yn awgrymu mai sôn am gyfuno'r holl fwydydd (yn un gybolfa) yr oedd y gwreiddiol.

Cywirdeb

- trafaelio
- trafaelu
- hyd yn oes
- **os** byddem
- llai... nac
- cynhesu byd-eang **ag** ansawdd awyr gwael
- twymo byd-eang
- masnach fwyd rhyngwladol
- codiad mewn poblogaeth
- nwyau

AWGRYMIADAU:

Cofiwch ddefnyddio gwirydd sillafu (naill ai un Microsoft neu Cysill neu'r ddau) cyn argraffu'r darn i'w ddarllen. Mae'n haws ambell dro gweld y gwall ar y papur nag ar y sgrin.

Defnyddiwch thesawrws Saesneg. Os gwyddoch nad yw'r cyfieithiad sydd gennych yn gwbl foddhaol, chwiliwch yn y thesawrws am eiriau cyfystyr â'r gair gwreiddiol yn y darn Saesneg. Efallai y bydd cyfieithiad o un o'r cyfystyron yn fwy addas.

Wrth ddarllen trwy'r darn, cofiwch y pethau syml fel cynnal cenedl neu rif enw hyd ddiwedd y frawddeg neu'r paragraff. Er enghraifft, efallai bod brawddeg neu gymal yn sôn am ysgol benodol – os felly, gwnewch yn siŵr bod pob rhagenw, ansoddair, treigladd ac arddodiad rhedadwy sy'n cyfeirio at yr ysgol yn cydweddu ag enw benywaidd unigol.

Os nad ydych eisoes yn gwneud hynny, da chi, gwrandewch ar Gymraeg llafar o safon a DARLLENWCH lenyddiaeth Gymraeg safonol yn gyson er mwyn ymgyfarwyddo â chystrawen gadarn a theithi naturiol yr iaith.